# PAPURAU BUSNES

## PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD MAWRTH, 7 TACHWEDD 2000

## RHAN 2 - ADRAN H

**Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm**

**2.00pm**

**Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru**
Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf

**2.33 pm**

Gwnaeth **Prif Weinidog Cymru** ddatganiad ar y llifogydd diweddar.

**2.07 pm**

**Pwyntiau o Drefn**

Cododd Owen John Thomas bwynt o drefn ynghylch cyfieithu cwestiynau. Dywedodd y Llywydd mai mater gweinyddol oedd hyn.

**2.12 pm**

**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**
Cytunwyd ar y Datganiad Busnes

**3.16pm**
**Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2000**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Hydref 2000.

**Cymerwyd pleidlais ar egwyddor y gorchymyn:**
O blaid 41; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Total 41
**Cytunwyd ar egwyddor y gorchymyn**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

(a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sy’n trafod y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Hydref 2000.

(b) yn cymeradwyo y gwneir y Gorchymyn yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Hydref 2000.

**Cymerwyd pleidlais ar y Gorchymyn:**
O blaid 41; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 41
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**3.33pm**
**Cymeradwyo Rheoliadau Addysg (Gwahardd o’r Ysgol) (Cyfnodau Rhagnodedig) (Cymru) 2000**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

a. yn cymeradwyo’r gorchymyn drafft canlynol o dan Reol Sefydlog 22.23A:

    Rheoliadau Addysg (Gwahardd o’r Ysgol) (Cyfnodau Rhagnodedig) (Diwygio) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Hydref 2000.

Ac

(b) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sy’n trafod y gorchymyn drafft hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2000.

**Cymerwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 40; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 40
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**3.34pm**
**Dadl ar y Gorchmynion Iechyd**
*Ceir un ddadl ar Reoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) 2000 a Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2000, gyda phleidlais ar egwyddor a chymeradwyo pob gorchymyn ar wahân wedi hynny.*
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

> Yn croesawu cyflwyniad ac yn cymeradwyo egwyddorion Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) 2000, (a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Hydref 2000) a Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2000 (a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Hydref 2000).

Yn cydnabod y cyfraniad adeiladol y bydd y gorchmynion hyn yn ei wneud i gyflawni'r egwyddorion a'r mentrau polisi iechyd a gofal cymdeithasol a gynhwysir yn 'GwellCymru.com' a 'Rhoi Cymru yn Gyntaf: Partneriaeth ar gyfer Pobl Cymru'.

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**
**Gwelliant 1 - Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);**

Ychwanegu pwynt bwled newydd at ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol mwy integredig yn holl bwysig i ddatblygu gwasanaethau gofalu yng Nghymru ac felly'n argymell y dylid mandadu'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i lunio adroddiad ar yr opsiynau a'r materion sydd ynghlwm wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn yn yr hir dymor yng Nghymru.

**Cymerwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O blaid 14; Ymatal 0; Yn erbyn 34; Cyfanswm 48
**Gwrthodwyd y gwelliant**

**Cymerwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd y cynnig**

***Cymeradwyo Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) 2000***
*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Hydref 2000.

**Cymerwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn:**
O blaid 48; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 48
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

(a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sy'n trafod y Gorchymyn drafft, Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) 2000, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2000.

(b) yn cymeradwyo y gwneir y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Hydref 2000.

**Cymerwyd pleidlais ar y Gorchymyn:**
O blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 45

**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**Cymeradwyo Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2000**
*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Hydref 2000.

**Cymerwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn:**
O blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 43
**Cymeradwywyd egwyddor y Gorchymyn**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

(a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sy'n trafod y Gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2000.

(b) yn cymeradwyo y gwneir y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Hydref 2000.

**Cymerwyd pleidlais ar y Gorchymyn:**
O blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46
**Cymeradwywyd y Gorchymyn**

**4.23pm**
**Dadl ar Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog *6.5, yn nodi Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) 1999-2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Hydref 2000*.

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**
**Gwelliant 1 - Janet Davies (Gorllewin De Cymru);**

Ychwanegu pwynt bwled newydd at ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod arwyddocâd mawr y *Review of the Public Sector Ombudsman in England* a gyhoeddwyd gan Gabinet y DU i Swyddfa Ombwdsman Gwasanaeth Iechyd Cymru a'i fod felly'n penderfynu cynnal adolygiad tebyg yng Nghymru ac y dylai'r adolygiad a'r argymhellion sy'n deillio o hyn gael eu hystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn cyfarfod llawn er mwyn iddynt gael eu mabwysiadu'n ffurfiol.

**Cymerwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**

**O blaid 12; Ymatal 7; Yn erbyn 22; Cyfanswm 41**
**Gwrthodwyd y gwelliant**

**Cymerwyd pleidlais ar y cynnig**
O blaid 42; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 42
**Cymeradwywyd y Cynnig**

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.46pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 9.05am ddydd Iau, 9 Tachwedd 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 2 TACHWEDD 2000**

EAST WALES OBJECTIVE 2 AND TRANSITIONAL PROGRAMME DRAFT Single Programming Document

Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru (Penodi) 2000

Rheoliadau'r Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) Diwygio (Cymru) 2000